

**CYFARFOD** hybrid **Y CYNGOR**, a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Ebrill 2022, gan gychwyn am 6.00pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

#### **132. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones.

Ar ran yr aelodau i gyd, dymunodd y Maer wellhad buan i'r Cynghorydd.

#### **133. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 16eg Mawrth 2022 - Rhifau Cofnod 118-131

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Mawrth 2022 - Rhifau Cofnod 54-56

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Ebrill 2022 - Rhifau Cofnod 57-59

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Adroddodd Clerc y Dref bod y ceisiadau cynllunio ôl-weithredol 45/2021/0738-40/PC yn ymwneud â thri eiddo ar stad newydd Aberkinsey yn y Rhyl wedi eu gohirio tan ar ôl etholiadau mis Mai yng nghyfarfod heddiw y Pwyllgor Cynllunio yng Nghyngor Sir Ddinbych.

#### **Cadarnhau neu fel arall:**

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 6ed Ebrill 2022 - Rhifau Cofnod 88-94

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

**134. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) dros y mis diwethaf ac yn benodol at Noson Wobrau BID y Rhyl a oedd yn destament i wytnwch busnesau'r Rhl dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac roedd wrth ei bodd yn cyflwyno gwobr Pencampwr Busnes Arbennig i Denmore Premier Stores.

**135. CYFLWYNIAD: COFNOD O FLWYDDYN YN Y SWYDD**

Ar ran y Cyngor Tref, cyflwynodd y Maer y Cynghorydd Mrs E. M. Chard gyda chofnod o'i blynnydoedd fel maer 2019-20 a 2020-21.

Roedd y Cynghorydd Chard yn ddiolchgar am y ffeiliau a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at edrych trwyddynt a chofio ei hamser fel Maer yr oedd wedi ei fwynhau, er gwaethaf y pandemig Covid.

**136. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (29ain Mawrth – 12fed Ebrill 2022)*

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Dsgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1397	Delwedd Ltd	24.47	Cofrestru enw parth
1398	Sioned Graham-Cameron	208.91	Gwasanaeth cyfieithu
	<b>Cyfanswm taliadau</b>	<b>£233.38</b>	

**Taliadau Argyfwng a Cherdyn:** Dim.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law, a byddai'n cael ei lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

**137. CYFRIFON ARIANNOL 2021/22 CYFRIFON DIWEDD Y FLWYDDYN DROS DRO A CHRONFEYDD WRTH GEFN**

Cyfeiriodd Clerc Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Sswyddog Cyllid (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a gofynnodd i'r Aelodau nodi'r amrywiadau allweddol a chymeradwyo'r alldro dros dro ar gyfer 2021/22 a symudiadau'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer diwedd y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2021/22 a chyfrifon dros dro diwedd y flwyddyn a chronfeydd wrth gefn.

### **138. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI 2021-2022**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid ar weithgareddau buddsoddi a pherfformiad o 1af Ebrill 2021 hyd at 31ain Mawrth 2022 (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

**PENDERFYNWYD** cydnabod yr adroddiad.

### **139. TROSGLWYDDO CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD**

Dywedodd Clerc y Dref bod y trosglwyddiad ar ddigwydd a bod y ddau barti (y Cyngor Tref a Chymdeithas Gymunedol y Rhyl) mewn cysylltiad rheolaidd â'u cyfreithwyr.

### **140. CYFARFOD ANFFURFIOL Y CYNGOR**

Dywedodd y Maer bod cyfarfod anffurfiol o'r Cyngor newydd i'w gynnal am 6.00pm ar ddydd Mercher 11eg Mai.

Adroddodd Clerc y Dref mai'r gyllideb bresennol ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a Noson Agoriadol y Maer oedd £2,000, ond ar ôl cysylltu gyda thri lleoliad lleol, roedd y pris ar gyfer y bwyd ar ei ben ei hun yn fwy na £2,000.

Roedd angen gwariant pellach ar gyfer ffotograffiaeth a blodau ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ac ar gyfer adloniant ac addurno'r byrddau ar gyfer y digwyddiad gyda'r nos.

Felly, gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwyaeth yr aelodau i gynyddu'r gyllideb i £4,000 ar gyfer y digwyddiad hwn yn unig, oherwydd nad oedd llawer o amser gan fod y Cyfarfod Blynyddol a'r Noson Agoriadol ar 18fed Mai. Byddai'r £2,000 ychwanegol yn dod o'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn.

Gofynnodd Clerc y Dref hefyd bod yr Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol yn ymgymryd ag arolwg llawn o lefelau cyllideb ar gyfer digwyddiadau dinesig yn y dyfodol, o hystyried yr argyfwng costau byw, ar ôl etholiadau mis Mai.

Roedd yr aelodau yn anghyfforddus gyda chynyddu'r gyllideb £2,000 arall ar adeg pan roedd pobl yn cael anwsterau mawr i gael dau ben llinyn ynghyd, ac ar ôl trafodaeth helaeth **PENDERFYNWYD** peidio â chynyddu'r gyllideb bresennol o £2,000.

### **141. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: .....

Dyddiad: ..20.04.2022.....